



Telerau ac Amodau

Contract Myfyriwr Addysg Uwch

Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
2. Ein Contract â chi	2
3. Amodau'r Contract	2
4. Hawliau Canslo	4
5. Mynediad at y Gwasanaeth Cymorth Dysgu	4
6. Talu Ffioedd	5
7. Ymadael yn Gynnar/Gadael y Rhaglen	7
8. Terfynu Contract Gorfodol	7
9. Defnydd o'ch Data Personol	8
10. Amrywiad i Delerau ac Amodau	8
11. Newidiadau i'r rhaglen astudio	9
12. Eich Hawliau	9

1. Cyflwyniad

Mae'r Contract Myfyriwr hwn yn amlinellu'r telerau ac amodau a fydd yn rheoleiddio eich perthynas gytundebol â Coleg Gwent. Sicrhewch eich bod yn darllen y ddogfen yn ofalus cyn derbyn eich cynnig. Gellir cael gafael ar yr holl ddogfennau, polisïau a gweithdrefnau eraill y cyfeirir atynt [yma](#).

2. Ein Contract â chi

Mae'r telerau ac amodau a amlinellir yn y contract hwn ar y cyd â chynnwys eich llythyr cynnig, yn ffurfio sail ein contract â chi. Bydd eich contract yn dod yn rhwymol ar yr adeg pan fyddwch yn derbyn eich cynnig ar gyfer y cwrs. Os ydych wedi ymgeisio drwy UCAS, bydd hyn digwydd pan fyddwch yn derbyn eich cynnig ar UCAS Track. Os ydych wedi ymgeisio yn uniongyrchol i'r Coleg, y pwynt derbyn fydd y dyddiad pan dderbynnir eich penderfyniad yn y swyddfa Derbyniadau, boed hynny drwy'r post, e-bost neu dros y ffôn.

3. Amodau'r Contract

Gwneir eich cynnig ar y rhagdybiaeth eich bod wedi darparu i'r Coleg yr holl wybodaeth berthnasol a chywir amdanoch ar eich cais i'w hystyried yn llawn ac yn deg. Os yw'n dod i'r amlwg eich bod wedi dal yn ôl neu gamliwio unrhyw wybodaeth berthnasol, eich bod wedi gwneud datganiadau ffals yn eich cais a'r broses ddethol, neu nid ydych yn gallu darparu tystiolaeth ddogfennol lawn o'ch cymwysterau ar ddechrau eich cwrs, mae'r Coleg yn cadw'r hawl i dynnu eich cynnig yn ôl.

Yn yr un modd, os yw gwybodaeth yn dod i'r amlwg ar ôl i chi gofrestru, y mae'r Coleg yn penderfynu (o dan unrhyw un o bolisiau a gweithdrefnau'r Coleg) y byddai'n eich gwneud yn anaddas neu'n eich atal rhag gallu parhau ar y cwrs, mae'r Coleg yn cadw'r hawl i dynnu'n ôl eich cofrestriad fel myfyriwr. Mae hyn yn berthnasol i ymgeiswyr sydd â chynigion amodol a diamod.

Os ydych wedi derbyn cynnig amodol, gwneir hyn yn amodol ar yr amodau a nodir yn eich llythyr cynnig.

Mae gennych tan y dyddiad a nodir yn eich llythyr cynnig i ddarparu tystiolaeth o fodloni'ch amodau. Gall y Coleg ddewis ymestyn y terfyn amser hwn yng ngoleuni amgylchiadau cyfyngol. Dylid cyflwyno ceisiadau ar gyfer ystyried amgylchiadau cyfyngol i'r Pennaeth Derbyniadau drwy'r polisi apeliadau yn y lle cyntaf.

Bydd methu â bodloni amodau'r cynnig, lle bo'n berthnasol, o fewn yr amserlen ofynnol yn arwain at y cynnig yn cael ei dynnu'n ôl. Lle bo'n bosibl ac yn briodol, bydd y Coleg yn cynnig cwrs arall, megis rhaglen Mynediad i AU, i ymgeiswyr nad ydynt wedi bodloni'r amodau hyn.

Gofynnir i'r holl ymgeiswyr ar y pwynt ymgeisio i ddatgan a oes ganddynt unrhyw euogfarnau troseddol ai peidio. Bydd rhai cyrsiau hefyd yn gofyn am wriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Ar gyfer cyrsiau lle nad yw DBS yn elfen orfodol o'r gofynion mynediad, gwneir y penderfyniad i wneud cynnig ai peidio heb gyfeirio at unrhyw ddatganiad ynghylch euogfarnau troseddol. Fodd bynnag, cynhelir proses ar wahân i adnabod p'un a yw euogfarnau unigolyn yn ei wneud yn anghymwys i gofrestru fel myfyriwr. Dim ond pan fydd y Coleg wedi penderfynu nad yw eu euogfarnau yn peri risg sylweddol i staff neu fyfyrwyr, y gwneir cynigion i ymgeiswyr. Gall methu â datgelu gwybodaeth am euogfarn neu achos llys yn yr arfaeth, neu gyflenwi gwybodaeth anwir neu anghywir am euogfarn neu achos llys yn yr arfaeth, arwain at eich cynnig o le, neu gofrestrriad ar y cwrs, yn cael ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg. Gweler y Polisi [Datgelu Euogfarnau Heb Eu Disbyddu](#) am fanylion pellach.

Mae'r rhan fwyaf o'r cyrsiau Addysg Uwch yn y Coleg yn cynnwys modiwlau sy'n gyfan gwbl orfodol. Lle cynigir modiwlau opsiynol, mae argaeledd modiwlau o'r fath yn amodol ar alw gan y corff myfyrwyr ac argaeledd staff ac adnoddau priodol i ddarparu'r modiwl yn llwyddiannus.

Dylai'r holl fyfyrwyr sicrhau bod ganddynt yr hawl i astudio yn y DU cyn derbyn eu cynnig. Cynghorir pob myfyriwr i wirio eu cymhwysra ar gyfer statws ffioedd "Cartref" drwy fynd i www.ukcisa.org.uk.

Mae Coleg Gwent yn cynnig cymwysterau Addysg Uwch (AU) rhagnodedig, ar Lefelau 4 i 6, mewn partneriaeth â phedwar corff dyfarnu; Pearson, Prifysgol De Cymru (USW), Prifysgol Aberystwyth (AU), Prifysgol Fetropolitan Caerdydd (CMU). Cefnogir a rheoleiddir y cymwysterau a ddyfernir gan reoliadau academiaidd y Brifysgol bartner berthnasol, a atgyfnerthir gan bolisiâu a gweithdrefnau [Coleg Gwent](#). Ar gyfer yr holl gyrff dyfarnu, pennir y ffioedd cwrs gan Coleg Gwent, ac mae'r holl addysgu ac asesu yn gyfrifoldeb y Coleg. Gwneir y dilysu allanol a'r monitro blynyddol o bob rhaglen gan y corff dyfarnu perthnasol.

Prifysgol De Cymru (USW)

- [Polisi Apeliadau Dysgwyr USW](#)
- [Cwynion Myfyrwyr USW](#)
- [Rheoliadau Camymddwyn Academiaidd USW](#)
- [Rheoliadau Academiaidd USW](#)

Prifysgol Aberystwyth (AU)

- [Polisi Apeliadau Dysgwyr Aberystwyth](#)
- [Cwynion Myfyrwyr Aberystwyth](#)
- [Rheoliadau Camymddwyn Academiaidd Aberystwyth](#)
- [Rheoliadau Academiaidd Aberystwyth](#)

- Llawlyfr Prifysgol Fetropolitan Caerdydd

Cenedlaethol Uwch Pearson

- [Rheoliadau a Chanllawiau Academaidd ar gyfer Rhaglenni Cenedlaethol Uwch Pearson](#)
- [Polisi Amgylchiadau Lliniarol y Rhaglen Pearson](#)
- [Gweithdrefn Apeliadau Academaidd Pearson](#)

Os ydych yn dymuno cofrestru ar gwrs AU yn y Coleg byddwch yn rhwym wrth Delerau ac Amodau'r Coleg a'r corff dyfarnu perthnasol ar gyfer eich cwrs astudio dewisol. Yn ystod eich cyfnod cynefino byddwch yn cael copi o Lawlyfr Cwrs, sydd wedi'i deilwra i'ch rhaglen. Gellir dod o hyd i'r Rheoliadau Asesu ar y rhith-amgylchedd ddysgu (VLE), a elwir yn Canvas. Eich cyfrifoldeb chi yw cynefino eich hun â chynnwys eich Llawlyfr a'r Rheoliadau Asesu a chodi unrhyw fater â'ch Tiwtor Personol.

Mae'n ofynnol i bob myfyriwr llynu at y Cod Ymddygiad Dysgwyr a fydd yn cael ei ddarparu yn ystod diwrnodau gwybodaeth yn ogystal ag adeg cofrestru, pan fydd yn cael ei egluro ymhellach.

4. Hawliau Canslo

Mae gennych hawliau defnyddwyr wrth fynd i mewn i gontract â ni.

Gallwch ganslo'r contract hwn o fewn 14 diwrnod drwy roi gwybod i ni o'ch bwriad i ganslo. Dyddiad cychwyn eich contract yw'r dyddiad yr ydych yn cofrestru ar eich cwrs.

Os ydych wedi ymgeisio drwy UCAS, gallwch dynnu eich penderfyniad i dderbyn yn ôl drwy fewngofnodi i UCAS Track a newid eich ymateb. Pa un a ydych wedi ymgeisio'n uniongyrchol drwy'r Coleg neu UCAS, dylech gysylltu â'r Tîm Derbyniadau drwy'r post, e-bost neu dros y ffôn, gan nodi eich rheswm dros ganslo.

5. Mynediad at y Tîm Cymorth Dysgu

Mae'r Coleg yn gwneud pob ymdrech i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer myfyrwyr sydd ag anableddau neu anghenion dysgu ychwanegol. Mewn achosion prin, fodd bynnag, ac ar ôl asesiad priodol, efallai na fydd hi'n bosibl gwneud addasiadau i'r graddau y byddai modd cefnogi'r myfyriwr i astudio. Dylai ymgeiswyr ag anableddau sicrhau eu bod yn ymgysylltu â'r Tîm Gwasanaethau Dysgwyr mor fuan â phosibl. Bydd unrhyw ymgeisydd sy'n datgan anabledd neu anhawster dysgu

penodol ar ei ffurflen gais, neu ar unrhyw adeg yn ystod y broses ymgeisio, yn cael ei gyfeirio at y Tîm Gwasanaethau Dysgwyr.

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod, lle nad yw anabledd neu anhawster dysgu penodol (neu effeithiau'r anabledd neu'r anhawster dysgu yn bodoli eisoes) yn dod i'r amlwg tan ar ôl cofrestru, yn ymgysylltu â'r Tîm Gwasanaethau Dysgwyr cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl hynny. Gall methu â gwneud hynny leihau'r cymorth sydd ar gael i chi, yn ogystal â pheryglu, o bosibl, eich cynnydd academiaidd. I wneud cais am drefniadau arbennig ar gyfer arholiadau rhaid i chi gofrestru â'r Tîm Gwasanaethau Dysgwyr fel y gellir asesu, ac ymgeisio am gymhwysterau ar gyfer trefniadau o'r fath.

Lwfans Myfyrwyr Anabl (DSA)

Gallwch ymgeisio am DSA os ydych yn astudio cwrs israddedig llawn amser neu ran-amser (er enghraifft gradd neu HND) ac mae gennych anabledd, cyflwr iechyd meddwl neu Anhawster Dysgu Penodol sy'n effeithio ar eich gallu i astudio.

Ni allwch dderbyn DSA os ydych eisoes yn derbyn cymorth cyfwerth i DSA gan ddarparwr cyllid arall, yn fyfyrwr yr UE neu ryngwladol, neu'n fyfyrwr ar leoliad blwyddyn lawn.

Os ydych yn anabl yn gorfforol, yn ddall, neu'n rhannol ddall, yn fyddar, yn drwm eich clyw neu'n dioddef o gyflwr meddygol neu iechyd meddwl, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth feddygol megis llythyr gan eich meddyg neu arbenigwr.

Os oes gennych SpLD neu Ddyslecsia, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth ar ffurf asesiad diagnostig a gynhaliwyd gan seicolegydd cofrestredig neu athro arbenigol sy'n meddu ar dystysgrif ymarfer. Os cynhaliwyd yr asesiad hwn cyn eich pen-blwydd yn 16 oed, bydd angen iddo gael ei ddiweddarau. Mae'n bosibl y bydd rhaid i chi dalu am brawf y mae angen ei wneud.

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â sut i ymgeisio am DSA, ewch i www.yourdsa.com.

Gall y Tîm Gwasanaethau Dysgwyr gyfeirio ymgeiswyr a myfyrwyr am asesiad dyslecsia lle bo'n ofynnol, ond yr ymgeiswyr/myfyrwyr sy'n gyfrifol am drefnu, a thalu am yr asesiadau.

Anogir myfyrwyr cofrestredig sy'n teimlo y gallant ei chael hi'n anodd talu am gost asesiad i gysylltu â'r Tîm Gwasanaethau Dysgwyr i ddarganfod pa opsiynau cymorth sydd ar gael i ddysgwyr sydd mewn, neu'n wynebu caledi ariannol.

6. Talu Ffioedd

Fel darpar fyfyrwr, dylech fod yn ymwybodol eich bod yn gyfrifol am sicrhau bod taliad ar gael ar gyfer eich ffioedd dysgu a chofrestru, ac unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'ch cwrs, a chostau byw drwy gydol eich rhaglen astudio. Mae'r Tîm Gwasanaethau Dysgwyr ar gael i ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i'r rhai hynny sydd eisiau cymorth gydag asesu eu cymhwysterau am gymorth ariannol a gwneud ceisiadau am gyllid myfyrwyr. Gellir cysylltu â'r Tîm Gwasanaethau Dysgwyr yn y dderbynfafa ar bob campws.

Myfyrwyr Cyfradd y DU/yr UE

Mae ffioedd cwrs blynyddol yn daladwy adeg ymrestru, sy'n digwydd ar ddechrau'r sesiwn academaidd, yn unol â'r [Polisi Ffioedd](#). Os oes gennych statws ffioedd 'Cartref', yn ogystal â thaliad llawn, mae gennych dri opsiwn talu ar gael i chi.

- (i) **Talu drwy Fenthyciad Myfyriwr** - Mae'n ofynnol i chi ddod â'ch llythyr 'Cyngor Talu Prifysgol neu Goleg' gyda chi i'ch cofrestriad a'i roi i'r gweinyddwr cofrestru. Rhaid i chi sicrhau bod y benthyciad yr ydych wedi ymgeisio amdano'n talu costau llawn y ffi ddysgu flynyddol. Rhaid talu ffi gofrestru'r Coleg a'r holl gostau eraill sy'n gysylltiedig â'r cwrs a nodir yn eich llythyr cynnig yn unol â Pholisi Ffioedd y Coleg. Bydd myfyrwyr sy'n ymgeisio am fenthyciadau myfyrwyr i dalu am eu ffioedd cwrs nad oes ganddynt dystiolaeth o hyn wedi'i gytuno erbyn yr amser maent yn cofrestru, yn arwyddo cytundeb adeg cofrestru, yn cytuno y byddant yn bersonol atebol am gost lawn y cwrs ac yn derbyn anfoneb am y ffioedd neu'n cael eu tynnu oddi ar y cwrs os ydynt yn methu â darparu dystiolaeth o fenthyciad yn cael ei rhoi iddynt erbyn diwedd Hydref ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau ym mis Medi neu ddiwedd Chwefror ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau ym mis Ionawr.
- (ii) **Nawdd gan gyflogwr** - Rhaid i chi ddod â llythyr gan eich cyflogwr, sy'n cadarnhau nawdd, gyda chi i'ch cofrestriad. Fel arall, byddwch yn cael ffurflen Nawdd Cyflogwr y mae'n rhaid ei chwblhau a'i dychwelyd i'r Tîm Cyllid, o fewn 21 diwrnod i gofrestru. Bydd methu â dychwelyd y ffurflen Nawdd Cyflogwr yn arwain atoch yn derbyn anfoneb am daliad.
- (iii) Bydd cyngor ar opsiynau **tal** yn cael ei roi adeg cofrestru. Efallai y bydd myfyrwyr statws ffioedd 'Cartref' yn cael cynnig y cyfle i dalu eu ffioedd mewn rhandaliadau. Dyma gytundeb blynyddol a wneir adeg cofrestru ac nid yw'n sefyll hyd ddiwedd y cwrs, pe bai dros nifer o flynyddoedd. Lle mae dystiolaeth bod myfyriwr wedi methu â thalu rhandaliad neu mae problem wedi bod gyda thaliadau ffioedd y myfyriwr, bydd rhybudd yn ymddangos ar ei gofnod myfyriwr yn ei gynghori na fydd yr opsiwn hwn ar gael iddo yn y dyfodol.

Newid statws ffi

Eich cyfrifoldeb chi yw rhoi gwybod i'r Coleg o unrhyw newid perthnasol yn eich amgylchiadau a allai effeithio ar eich statws ffioedd neu gymhwystra am gymorth ariannol.

Ni all y Coleg gymryd cyfrifoldeb am benderfyniadau cyllid unrhyw gyllidwyr trydydd parti a all effeithio ar eich gallu i gael gafael ar arian ar gyfer talu ffioedd, bwrsariaethau neu debyg, gan gynnwys lle mae penderfyniadau wedi cael eu gwneud ar ôl i chi gofrestru ar raglen astudio.

Peidio â thalu ffioedd

Mae parhau i ddilyn cwrs astudio yn ddibynnol ar ffioedd yn cael eu talu. Bydd peidio â thalu ffioedd neu fethu â chytuno ar delerau talu derbyniol yn arwain at:

- (i) dystysgrifau arholi ddim yn cael eu cyhoeddi; a/neu
- (ii) fynediad i'r cwrs yn cael ei rwystro; a/neu
- (iii) fynediad i leoliadau gwaith (sy'n ffurfio rhan o raglen y cwrs) yn cael ei atal; a/neu
- (iv) geisiadau am dystysgrifau presenoldeb a geiradaon yn cael eu gwrthod; a/neu

- (v) fynediad i Seremonïau Graddio yn cael ei wrthod.

Bydd ffioedd na delir yn cael eu cyfeirio at yr asiantaeth casglu dyledion i'w hadennill. Bydd myfyrwyr neu eu noddwr yn gyfrifol am unrhyw gostau ychwanegol a ysgwyddir gan y Coleg.

7. Ymadael yn Gynnar/Gadael y Rhaglen

Os ydych yn dymuno gadael eich cwrs cyn cwblhau'r rhaglen astudio lawn, dylech siarad â'ch Tiwtor Personol neu Arweinydd Cwrs yn y lle cyntaf. Dylech geisio cymorth ynglŷn ag unrhyw oblygiadau ariannol posibl tynnu'n ôl.

Os ydych yn dewis terfynu eich astudiaethau yn gynnar, gallech dderbyn gwobr ganolradd - megis Tystysgrif neu Ddiploma Addysg Uwch lle cymeradwyir hyn a lle rydych yn gymwys am un. Bydd trawsgrifiad yn cynnwys manylion yr holl gredydau a gyflawnwyd yn cael ei ddarparu.

Os ydych yn dewis terfynu eich astudiaethau yn gynnar, heb gyflawni digon o gredydau i sicrhau gwobr ganolradd ar unrhyw lefel, byddwch yn cael trawsgrifiad yn cynnwys manylion yr holl gredydau a gyflawnwyd gan y corff dyfarnu.

Rheoliadau academiaidd eich rhaglen sydd â'r hawl i benderfynu a gewch chi barhau â'ch astudiaethau yn ddiweddarach.

Yn unol â'r Cytundeb Dysgwr a lofnodir adeg cofrestru, os ydych yn dewis tynnu'n ôl o'ch rhaglen, byddwch yn parhau i fod yn atebol am unrhyw ffioedd dyledus a ysgwyddir yn ystod y flwyddyn academiaidd gyfredol.

8. Terfynu Contract Gorfodol

Gall fod yna achosion lle mae'n angenrheidiol gofyn, neu fynnu, bod myfyriwr yn gadael ei raglen astudio, gan hynny terfynir contract y myfyriwr â Coleg Gwent. Gall amgylchiadau o'r fath gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- (i) Methiant academiaidd, lle mae'r opsiwn o ailsefyll modiwl(au) wedi cael ei archwilio.
- (ii) Methiant academiaidd yn sgil troseddau academiaidd.
- (iii) Methu, neu risg o fethu, o ganlyniad i salwch. Gall hyn gynnwys atal unrhyw ddirywiad pellach i iechyd y myfyriwr.
- (iv) Gwaharddiad o'r rhaglen o ganlyniad i ymddygiad amhroffesiynol ar leoliad neu yn y Coleg.
- (v) Gwaharddiad o'r rhaglen o ganlyniad i fethu â bodloni safonau a disgwyliadau proffesiynol fel y nodir gan Gyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoliadol (PSRBs) neu Gyrff Cyngtori Proffesiynol (PABs).
- (vi) Gwaharddiad o'r Coleg o ganlyniad i fethu â thalu ffioedd.
- (vii) Gwaharddiad o'r Coleg o ganlyniad i dorri amodau'r Cod Ymddygiad Myfyrwyr.

Os ydych yn teimlo eich bod wedi cael eich tynnu'n ôl o'ch rhaglen yn annheg, efallai fod gennych yr hawl i apelio o dan y [Weithdrefn Apeliadau Academiaidd](#).

9. Defnydd o'ch Data Personol

Byddwch yn cael Datganiad Diogelu Data pan fyddwch yn cofrestru ar eich cwrs dewisol. Bydd y datganiad hwn yn darparu gwybodaeth am y defnydd o'ch data personol a sut y caiff ei rannu. Noder ei bod hi'n ofynnol i'r Coleg rannu gwybodaeth gyda'r canlynol:

- Asiantaethau cyllid ac ystadegol, megis yr OfS, HESA a'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr.
- Cyrff dyfarnu, h.y. USW, UW, AU, Pearson ac UCAS
- Heddlu Gwent (lle mae euogfarn droseddol wedi cael ei datgan)

Bydd eich gwybodaeth personol yn cael ei rhannu gyda'r Brifysgol ddyfarnu sy'n gysylltiedig â'ch cwrs astudio.

Yn ystod blwyddyn olaf eich rhaglen gofynnir i chi gymryd rhan yn yr **Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr**. Arolwg a noddir gan y llywodraeth yw hwn, sy'n ceisio barn a safbwyntiau myfyrwyr ynglŷn ag agweddau amrywiol ar eu rhaglen astudio. Bydd y cwmni arolwg, Ipsos-Mori yn cysylltu â chi'n uniongyrchol, am eich barn dros y ffôn neu drwy e-bost.

Ymhen pymtheg mis ar ôl i chi gwblhau'ch rhaglen astudio bydd cwmni arolwg yn cysylltu â chi i ofyn beth ydych wedi bod yn ei wneud ers gadael Coleg. Gelwir hyn yn Holiadur Hynt Graddedigion. Mae gan y llywodraeth a chyrrff eraill ddiddordeb yn yr effaith mae astudio ar lefel Addysg Uwch yn ei gael ar fywydau cyn-fyfyrwyr e.e. eu rhagolygon gwaith, dyrchafiad yn y gwaith, y cyflog a enilliant gyda chymhwyster AU.

Bydd canlyniadau'r arolygon a nodir uchod yn cael eu hadrodd yn ddienw, a bydd eich ymatebion yn aros yn gyfrinachol. Mae'r Coleg yn gobeithio y byddwch yn cymryd rhan yn llawn yn y ddau arolwg yma gan fod eich barn yn bwysig i ni. Bydd yr adborth a ddarperir gennych yn helpu'r Coleg i wella ansawdd ei gyrsiau AU a gwasanaethau cymorth.

Mae Coleg Gwent yn cydweithredu'n llawn â gofynion Llywodraeth y DU ar gyfer monitro a rheoli dinasyddion nad ydynt yn hanu o'r DU, sy'n dod yma at ddibenion astudio. Mae cydweithrediad o'r fath yn cynnwys datgelu gwybodaeth o fewn y gyfraith am fyfyrwyr unigol ynglŷn â'u statws, dull astudio, presenoldeb a manylion cyswllt.

Mae'r Coleg yn cydymffurfio'n llawn â [Deddf Diogelu Data 1998](#) a'r [Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data](#) (GDPR) o fis Mai 2018.

10. Amrywiad i Delerau ac Amodau

Bydd Coleg Gwent yn cymryd yr holl gamau rhesymol i ddarparu'r rhaglen a'r gwasanaethau fel y'u disgrifir yn ein prospectysau ac ar ein gwefan. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau efallai na fydd y Coleg yn gallu darparu'r rhaglenni neu'r cyfleusterau fel y'u disgrifiwyd.

Dirwyn cyrsiau i ben

O bryd i'w gilydd, gall fod yn ofynnol dirwyn cwrs i ben, er enghraifft o ganlyniad i niferoedd isel a all yna effeithio ar brofiad myfyrwyr. Nid yw'r Coleg yn cymryd y penderfyniad hwn yn ysgafn a bydd bob amser yn rhoi buddiannau myfyrwyr yng nghanol y broses o wneud penderfyniadau.

Efallai y bydd cwrs yn dirwyn i ben os yw ail/ddilysiad â chorff dyfarnu yn aflwyddiannus. Os dyma'r achos, rhoddir gwybod i ymgeiswyr cyn gynted ag sy'n bosibl. Mae'r Coleg yn gwerthfawrogi bod

dirwyn cyrsiau i ben yn drallodus iawn i ddysgwyr a'u teuluoedd. Bydd y Coleg yn ymdrechu i gynnig cwrs arall neu ddod o hyd i raglen addas â darparwr arall. Os nad yw hyn yn bosibl, neu nid ydych yn dymuno derbyn y cwrs arall, mae gennych yr hawl i dynnu eich cais yn ôl. Os bydd tynnu'n ôl o'r fath yn digwydd, bydd y Coleg yn ad-dalu unrhyw ffioedd a dalwyd.

11. Newidiadau i'r rhaglen astudio

Mae'n rhaid i raglenni a ddarperir mewn partneriaeth â'n Prifysgolion masnachfaint gael eu hailddilysu bob tair i bum mlynedd. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i'r Coleg ddiweddarau'r modiwlau a sicrhau bod y rhaglen yn dal i ddiwallu anghenion myfyrwyr, y diwydiant a'r farchnad lafur. Gall hyn arwain at newidiadau i deitl y dyfarniad, strwythur y modiwlau sydd ar gael e.e. p'un a yw modiwlau yn orfodol neu'n ddewisol, a chynnwys y modiwlau sydd ar gael.

Mae'n bosibl hefyd y bydd argaeledd llwybrau rhaglen hefyd yn dibynnu ar alw gan y corff myfyrwyr. Lle mae rhaglen yn cynnig dau neu fwy o lwybrau penodol, mae'n bosibl mai dim ond pan fydd digon o alw y gellir cynnig yr holl lwybrau.

Os newidir rhaglen astudio ar ôl i'r cynnig gael ei dderbyn, ond cyn i chi gofrestru ar y rhaglen, byddwch yn cael yr opsiwn i dynnu eich penderfyniad i dderbyn yn ôl a therfynu'r contract myfyriwr. Rhoddir gwybod am y newidiadau yn ysgrifenedig drwy lythyr a anfonir gan y swyddfa Derbyniadau.

Ffioedd dysgu a ffioedd eraill

Mae'r holl ffioedd yn cael eu pennu'n flynyddol, ac yn ddyledus yn flynyddol. Caiff y cynlluniau talu eu cytuno'n flynyddol hefyd. Mae myfyrwyr cyfredol yn derbyn hysbysiad o ffioedd blynyddol yn eu llythyr cofrestru.

Bydd eich ffi ddysgu yn aros yr un fath ar gyfer bob blwyddyn astudio, ar yr amod nad ydych yn newid dull astudio, yn trosglwyddo i gwrs arall neu'n gohirio eich astudiaethau am gyfnod o amser a fyddai'n effeithio ar eich hawl i gael eich ystyried fel myfyriwr sy'n parhau.

Yn ogystal â'r ffioedd dysgu, bydd y Coleg hefyd yn codi ffi gofrestru flynyddol, ffioedd deunyddiau, ffioedd teithiau, ffioedd stiwdio ac unrhyw ffioedd eraill sy'n angenrheidiol ar gyfer cwblhau nodau dysgu'r rhaglen yn llwyddiannus. Bydd y ffioedd hyn yn cael eu cyhoeddi ymlaen llaw ar wefan y Coleg, fel bod yr holl ymgeiswyr yn ymwybodol o'r costau hyn cyn dewis cwrs a sefydliad.

12. Eich Hawliau

Mae gennych hawliau fel defnyddiwr. Caiff eich hawl i ganslo eich contract gyda Coleg Gwent ei egluro yn adran 4, uchod. Caiff amodau gallu tynnu'n ôl o'ch rhaglen yn gynnar, neu ohirio eich astudiaethau, eu hegluro yn adran 8.

Os ydych yn dymuno apelio penderfyniad derbyniadau, neu wneud cwyn am broses dderbyniadau neu wybodaeth cyn cyflwyno'r cais, darllenwch y [Polisi a'r Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr Addysg Uwch](#)

Os nad ydych yn fodlon â'ch profiad fel myfyriwr Coleg Gwent, ac rydych wedi bod ar drywydd pob cam o weithdrefn gwynion y Coleg, mae gennych yr hawl i gyflwyno'ch cwyn gerbron Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA). Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn www.oiahe.org.uk. Byddwch yn ymwybodol nad yw cwynion gan ddarpar fyfyrwyr yn dod o dan gylch gwaith yr OIA.

Gallwch gael cyngor annibynnol ar eich hawliau fel defnyddiwr gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) [yma](#).